Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru
Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Adroddiad i:

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Mis Medi 2015

## Rhagair

GwE yw Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru sydd yn gweithio yn gwbl ddwyieithog ochr yn ochr â ac ar ran Awdurdodau Lleol Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn i ddatblygu ysgolion rhagorol ar hyd a lled y rhanbarth a gwella deilliannau i ddisgyblion drwy sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel a dysgu ac addysgu o safon ym mhob dosbarth. Gweledigaeth GwE yw, trwy herio yn bwrpasol a chefnogol a thrwy gynnig cefnogaeth heriol, datblygu cyfundrefn sydd yn hunan-wella ac yn dangos ffydd yn ein hysgolion a'u harweinwyr ar bob lefel i'n tywys ar hyd y daith honno. Ar ei orau, mae cydweithio agos rhwng ysgolion yn broses hynod heriol ac yn ein harwain at sylweddoli efallai nad ydy'r hyn yr oeddem ni yn ei ystyried yn arfer ragorol yn rhagorol wedi'r cyfan. Gwaith ysgolion yw gwella eu hunain er lles y dysgwyr yn eu gofal; tasg GwE yw sicrhau bod hynny'n digwydd.

## Llywodraethu

Mae'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod rhwng chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru yn diffinio trefniadau llywodraethu Cyd-Bwyllgor GwE, gan gynnwys ei Gylch Gorchwyl a'i Bwerau Datganoledig. Gan hynny, mae hefyd yn adnabod pa faterion a gedwir yn benodol i'r awdurdodau partner unigol benderfynu arnynt. Dyma gylch gorchwyl a phwerau datganoledig y Cyd-Bwyllgor:

i. hyrwyddo cydweithio i gyflenwi'r Gwasanaeth drwy:
ii. hwyluso gweithio partneriaethol adeiladol;
iii. cysylltu â chyrff allweddol sydd â diddordeb a rhanddeiliaid pan fo hynny'n briodol; a
iv. cyflawni gweithgareddau eraill tebyg sydd wedi'u cynllunio neu'n arwain at gyflenwi'r Gwasanaeth yn llwyddiannus; a
v. goruchwylio gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner, fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes Blynyddol cytûn;
vi. cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
vii. cymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
viii. monitro a rheoli'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
ix. cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am gyllid ychwanegol gan Gynghorau unigol;
x. cymeradwyo strwythur staffio y Gwasanaeth;
xi. penodi Prif Swyddog i'r Gwasanaeth;
xii. penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog; ac,
xiii. ble mae angen, pennu neu wneud trefniadau ar gyfer pennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

Cedwir y materion canlynol yn benodol i Gabinetau unigol benderfynu arnynt:

i. cymeradwyo trefniadau llywodraethu partneriaeth rhyng-Gyngor;
ii. cynyddu cyllideb cyfraniadau'r Cynghorau;
iii. caffael y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol; a
iv. diweddu'r Bartneriaeth.

## Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw datblygu cyfundrefn addysg o safon fyd-eang ble gall pob disgybl yn y rhanbarth elwa ar addysgu sy'n gyson safonol ym mhob dosbarth a ble mae pob ysgol, waeth beth eu lleoliad daearyddol, yn cael ei harwain gan arweinwyr rhagorol. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, bydd GwE yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fynd ati i gefnogi, herio a monitro perfformiad yn gadarn ac yn effeithiol a sicrhau bod y fframwaith categoreiddio yn cael ei ddefnyddio'n gyson i dargedu cynhaliaeth yn ôl yr angen.

Mae'r cynllun gwella cenedlaethol "Cymwys am Oes" yn arwydd o ymrwymiad i'r syniad o gyfundrefn addysg sy'n gwella ei hunan ac yn crisialu'r weledigaeth o arweinwyr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd, gan gymryd yr awenau o ran eu dyfodol a'u datblygiad. Tra bod rhaid i'r rhai o fewn ein hysgolion fod yn gyfrifol am godi safonau yn eu sefydliadau eu hunain, mae GwE yn ceisio magu meddylfryd o gyd-ddathlu llwyddiannau cyfundrefn gyfan - ***"Rydw i am i bob ysgol fod yn ysgol dda, ond rydw i am i'm hysgol i fod 'chydig bach yn well."***

## Deilliannau â Blaenoriaeth

Mae'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol wedi cytuno ar y deilliannau â blaenoriaeth yn y ddogfen hon. Maent yn adlewyrchu ymrwymiad y rhanbarth i roi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Byddant yn llywio gwaith GwE ac yn dangos sut fyddwn ni'n gweithredu disgwyliadau'r Model Cenedlaethol a gofynion Cytundeb Partneriaeth Gogledd Cymru. Adlewyrchant hefyd ganfyddiadau adroddiadau thematig SAC/Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015. Mae pwyslais amlwg yn ein dull gweithredu a'n methodoleg ar ddatblygu system hunan wella ble bydd Ymgynghorwyr Her, Swyddogion ALl, arweinwyr ac ysgolion yn mynd ati'n ddyfal i gefnogi, herio a rhannu'r arferion gorau. Rhoddir prosesau sicrhau ansawdd trylwyr ar waith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol o fewn ac ar draws y tri hwb daearyddol.

## Cyflawni'r Deilliannau â Blaenoriaeth

Bydd GwE yn gwella deilliannau dysgwyr drwy:

- ddarparu cymorth a her effeithiol i ysgolion [drwy ddefnyddio Ymgynghorwyr Her, Penaethiaid/aelodau UDRh ar secondiad, Partneriaid Cynorthwyol ac ymarferwyr arbenigol]
- hwyluso a hybu partneriaeth effeithiol rhwng ysgol i ysgol
- darparu rhaglen hyfforddiant i hybu a datblygu arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu effeithiol gyda phwyslais neilltuol ar sgiliau llythrennedd a rhifedd ac anghenion dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig
- cydweithio a chefnogi'r Awdurdodau Lleol i gychwyn ymyrraeth ffurfiol mewn ysgolion ble nad yw perfformiad yn gyson â'r safonau gofynnol.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd GwE yn gweithio tuag at gael set o nodau addysgol ac hefyd yn gwella ei strwythurau trefniadaethol mewnol er mwyn bod mewn gwell sefyllfa i gynnig cefnogaeth gynaliadwy i ysgolion y rhanbarth.

# Ymateb i argymhellion Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru

## Trosolwg

- Mae ymateb GwE i argymhellion y ddau adroddiad wedi'i gynnwys yng Nghynllun Busnes 3 blynedd GwE, ac fe'u nodir yn flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

- Cydnabu Estyn a SAC bod y ddau adroddiad yn cyflwyno darlun cynnar o ddatblygiad y trefniadau i sicrhau gwelliannau mewn ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol a bod consortia rhanbarthol wedi ymateb yn dda i adborth a gafwyd a bod camau eisoes yn cael eu cymryd i ymdrin â rhai agweddau ar y canfyddiadau.

## Ymateb i argymhellion penodol

*A1 (Estyn): Gwella trefniadau rheoli perfformiad*

*A3 (SAC): Datblygu mwy o berthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion*

*A5 (SAC): Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol*

- Mae GwE wedi llunio cynllun busnes newydd i gynnwys cerrig milltir tair blynedd ble nodir camau gweithredu, deilliannau a chostau manwl ar gyfer pob blaenoriaeth.

- Bydd y blaenoriaethau yn y Cynllun Busnes yn bwydo i gofrestr risg ffurfiol gyda'r UDRh, y Bwrdd Rheoli, y Cydbwyllgor a'r Bwrdd Ymgynghorol yn monitro yn eu tro.

- Cytunwyd ar ddull strategol newydd efo Penaethiaid a fydd yn arwain at fwy o annibyniaeth a gweithgareddau cydweithredol i'n hysgolion gorau.

- Bydd GwE yn parhau i hogi prosesau hunan arfarnu i sicrhau y caiff data perfformiad ei ddefnyddio yn fwy effeithiol.

- Mae GwE wrthi'n datblygu system rheoli data gadarnach fel y gellir rheoli a dadansoddi data yn fwy effeithiol ar draws ysgolion.

- Mae GwE yn hyrwyddo systemau tracio mwy effeithiol ar lefel ranbarthol a lleol.

- Caiff targedau a data cynnydd pob ysgol eu monitro'n drylwyr dros y flwyddyn ysgol. Data lefel macro yn y lle cyntaf. Bydd Ymgynghorwyr Her unigol yn gyfarwydd â thracio a data ar lefel disgybl.

- Bydd perthynas agos rhwng yr holl amcanion Rheoli Perfformiad â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes.

- Mae strwythurau rheoli llinell ac atebolrwydd wedi cael eu hail alinio.

- Rhoddir amcanion i bob YH sy'n cyd-fynd â thargedau gwella meintiol ysgolion cyswllt.

- Mae strwythurau a chanllawiau eglur ar waith ar gyfer rheoli perfformiad staff, a datblygwyd cylch hyfforddiant unigryw i gefnogi gwelliant a chysondeb.

- Mae Ymgynghorwyr Her eisoes yn gweithio fesul parau/cysgodi.

- Cytunwyd ar weithdrefnau medrusrwydd a darparwyd hyfforddiant i'r UDRh.

*A2 (Estyn): Sicrhau cysondeb gwell yn ansawdd arfarniadau Ymgynghorwyr Her o ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac arweinyddiaeth*

- Mae GwE wrthi'n datblygu strwythurau cadarn i sicrhau cysondeb.

- Archwilir adroddiadau Ymgynghorwyr Her drwy drefniadau rheoli llinell fesul hwb a chyfarfodydd timau rhanbarthol/UDRh.

- Rhennir arferion da o fewn ac ar draws hybiau.

- Mae pob adroddiad ar gael i'r Ymgynghorwyr Her, a nodir arferion rhagorol.

- Mae rhaglen hyfforddi a datblygu ar waith i bob Ymgynghorydd Her.

- Categoreiddio: Mae GwE yn darparu rhaglen hyfforddiant i sicrhau cysondeb â'r disgwyliadau cenedlaethol a chysondeb gweithredu ar draws hybiau.

- Disgwyliadau bod profiad perthnasol o reolaeth ar lefel uchel yn allweddol ym mhob penodiad a wneir.

- Adnabod 3 maes allweddol fel sail i rôl portffolio arweiniol Ymgynghorwyr Her [Dysgu ac Addysgu; Arweinyddiaeth; Asesu a Thracio].

*A3 (Estyn): Datblygu strategaethau cliriach i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysg a sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn gydlynus i'r perwyl hwn*

- Adnabuwyd arweinydd strategol a drafftiwyd strategaeth ranbarthol (rhannwyd copi â LlC).

- Adnabuwyd blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol.

- Datblygwyd cynllun rhanbarthol i gefnogi PMG, a gymeradwywyd gan LlC, ac a weithredir gan swyddog arweiniol.

- Llwyddwyd i adnabod Ysgolion Cyd-Arweiniol (YCA) i leihau effaith tlodi yn y lle cyntaf.

- Trefnwyd Cynhadledd Genedlaethol gan GwE ar Effaith Amddifadedd ar gyfer 9 Tachwedd. Gwahoddwyd y Gweinidog.

- Hyfforddwyd Ymgynghorwyr Her ar strategaethau llwyddiannus i roi sylw i effaith amddifadedd ar safonau.

- Mae mynd i'r afael ag amddifadedd yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd yr UDRh.

*A4 (Estyn): Gwella ansawdd ac ystod y cymorth ar gyfer ysgolion (strategaethau ysgol i ysgol)*
*A4 (SAC): Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus*

- Mae strategaeth drosfwaol gytûn ar waith.
- Hwylusir rhaglenni traws sector a thraws awdurdod [gan gynnwys cysylltiadau ag AU a busnesau lleol] a'u rhannu mewn cynhadledd ranbarthol.
- Cytunwyd ar Strategaeth Ysgolion Cyd-Arweiniol [i'w gyflwyno Haf 2015].
- Gweithio gyda LlC i adnabod Ysgolion Arloesi Dyfodol Llwyddiannus ac ysgolion Arloesi y Fargen Newydd.
- Bydd model diwygiedig GwE ar gyfer cefnogi/herio ysgolion yn hybu datblygiad system hunan wella ysgol ymhellach.
- Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth ar waith.

*A4 (Estyn): Gwella ansawdd ac ystod y cymorth ar gyfer ysgolion (pynciau nad ydynt yn rhai craidd)*

- Cyflwynir rhaglen ddatblygu GwE i wella gwaith arwain dysgu ac addysgu, a dylid gweld effaith mewn pynciau craidd ac anghraidd.
- Datblygir cydweithio ysgol i ysgol drwy'r rhaglenni hyn.
- Bydd y model ysgolion cyd-arweiniol yn gynsail i ddatblygu cefnogaeth i bynciau anghraidd.
- Bydd datblygu trefn o ysgolion Gwyrdd a Melyn sy'n cyd gefnogi a chyd herio ei gilydd yn helpu i gynnal y gwaith sydd ei angen ar draws y pynciau anghraidd.
- Mae GwE yn datblygu mynegai o arferion effeithiol ar draws y rhanbarth, a fydd yn cynnwys pob pwnc maes o law. Yn y pendraw, bydd GwE yn gosod trefn sicrhau ansawdd ac yn cynnwys ysgolion yn y mynegai.

*A5 (Estyn): Cynnwys awdurdodau esgobaethol yn effeithiol wrth gynllunio ac arfarnu gwasanaethau rhanbarthol yn strategol*

- Cydnabu adroddiad Estyn mai GwE yw'r unig ranbarth sydd eisoes yn mynd ati i gynnwys yr awdurdodau esgobaethol.
- Wrth sefydlu GwE, roedd cynrychiolwyr esgobaethol o Wrecsam, Llanelwy a Bangor yn rhanddeiliaid allweddol ac fe ymgynghorwyd â nhw ar wahanol adegau.
- Mae Strwythur Llywodraethu GwE yn cynnwys cynrychiolydd esgobaethol fel aelod cyfetholedig y Cydbwyllgor [yn gwasanaethu am ddwy flynedd ar y mwyaf].

*A6 (Estyn): Dylai awdurdodau lleol gefnogi eu consortiwm rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau busnes tymor canolig a sicrhau bod yr holl gynlluniau'n ystyried anghenion eu hysgolion lleol*

- Bydd Cynllun Busnes GwE yn cynnwys cerrig milltir am y tair blynedd nesaf a bydd cyfeiriad amlwg at y gwaith fydd ei angen ym mhob ALl (yn ychwanegol at unrhyw ddarpariaeth graidd gan GwE).

*A7 (Estyn): Dylai awdurdodau lleol ddatblygu perthnasoedd gweithio ffurfiol rhwng pwyllgorau craffu yn eu consortiwm er mwyn craffu ar waith ac effaith eu consortiwm rhanbarthol.*

*A1 (SAC): Egluro natur a gweithrediad y consortia*

*A5 (SAC): Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol*

- Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol GwE sydd bellach yn weithredol.
- Mae angen hogi ymhellach rôl y Cydbwyllgor sy'n cynnwys cynrychiolaeth weithredol o bob un o'r awdurdodau partner.
- Cytuno ar raglen archwilio dreigl i'r ALl/Cydbwyllgor.
- Sicrhau her gadarn i uwch staff GwE mewn cyfarfodydd archwilio.
- Sicrhau bod y Grŵp Defnyddwyr yn rhoi cefnogaeth a her i uwch staff GwE.
- Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru bellach wedi crisialu mai gwasanaeth a ddarperir ar y cyd yw GwE ac nid gwasanaeth a gomisiynir.

Edrycha GwE a chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru ymlaen at weithredu argymhellion y ddau adroddiad yn llawn. Rydym yn ymwybodol bod arolygiad manwl pellach gan Estyn yn ôl fframwaith sydd eto i'w gyhoeddi, yn debygol yn nhymor y Gwanwyn neu'r Haf yn 2016. Nid oes dwywaith y bydd yr arolygiad hwn yn edrych ar gynnydd GwE tuag at gyflawni argymhellion y ddau adroddiad y cyfeirir atynt yn y papur hwn.

**Huw Foster Evans**
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Medi 2015